



Creu Arfbais gyda Mr. Crawshay

Helo! Fy enw i yw
Richard Crawshay a gwnes i droi
Gwaith Haearn Cyfarthfa i mewn i'r gwaith
haearn mwyaf yn y byd ym 1796.

Ffermwyr oedd fy nheulu yn wreiddiol, ond ar fy ol
i roedd ein henw'n adnabyddus ledled y byd felly
gwnes i greu arwydd ac arfbais i fy nheulu.

Darllenwch am arfbais Crawshay ac yna
**crëwch arfbais ar gyfer eich
teulu chi eich hun.**



Aradr y Ffermwyr

Mae hwn yn cynrychioli
beth oedd teulu'r
Crawshays yn ei wneud
yn Swydd Efrog cyn i
Richard ddod i Gyfarthfa
a gwneud ei enw yn y
diwydiant haearn.



Gafaelgi Tarw

Ystyr Cyfarthfa yw 'lle'r
cyfarth', felly mae'r ci
yn cynrychioli Cyfarthfa
a'r peli canol wrth ei
draed yw beth oedd
Gwaith Haearn Cyfarthfa
yn ei wneud gan ennill
llawer o arian. Felly
mae'r symbol yma'n
golygu mai Gwaith
Haearn Cyfarthfa oedd
arwydd teulu'r
Crawshays.

Moto'r Teulu

'Dyfalbarhad' yw moto'r teulu. Mae hyn
oherwydd bod Gwaith Haearn Cyfarthfa bron â
methu sawl gwaith, ond gwnaeth Richard
ddyfalbarhau nes iddo dyfu i fod y gwaith
mwyaf o ran maint a mwyaf pwysig yn y byd.
Roedd am i bawb gofio am ei ddyfalbarhad
felly'r gair hwn oedd moto'r teulu.






Crëwch eich Arfbais eich hun

Crefftiwch gyda ni! Gnewch bethau'n haws drwy edrych ar diwtorial crefftio. Gallwch ddod o hyd iddo ar ein sianel YouTube. Chwiliwch am **Lles Merthyr**.

Nodwch: Gallwch brintio'r dudalen hon neu wneud eich fersiwn eich hun. Sicrhewch fod tair adran iddi.

1. Yn y ddwy ran uchaf, tynnwch lun ddau beth sy'n golygu llawer i chi. Gallai fod yn hoff berson, llyfr, bwyd, anifail, unrhyw beth!
2. Yn y rhan fawr, meddyliwch am rywbeth sy'n cynrychioli'ch teulu i gyd. Gallech chi dynnu llun 'H' fawr os yw eich teulu i gyd yn hoffi Harri Potter. Os oedd nifer o aelodau o'ch teulu'n arfer gweithio fel Glowyr, gallech dynnu llun lamp Davy. Gall fod yn unrhyw beth o gwbl yr hoffech chi, hoff fwyd rydych yn ei fwynhau efallai, siaradwch gyda phawb a dewiswch rywbeth gyda'ch gilydd.
3. Meddyliwch am un gair fel moto i'r teulu a'i ysgrifennu o dan eich arwydd.
4. I orffen, ychwanegwch beth lliw! Mae bwysig iawn. Trowch i'r dudalen olaf i ddarganfod rhagor.




Lliwch eich Arfbais

Wrth roi un neu ddau liw yn unig ar eich arfbais bydd pobl yn gallu deall yr hyn mae eich teulu yn sefyll drosto.

Roedd rhai teuluoedd yn rhyfelwyr mawr felly roedden nhw'n rhoi coch ar eu harfbais roedd eraill yn ymladd dros gyfiawnder felly porffor oedd eu lliw nhw. Roedd y rhan fwyaf o deuluoedd yn dewis dau neu dri lliw er mwyn dweud wrth y byd dros beth oedd eu teulu'n sefyll.

Dewiswch dri lliw o'r rhestr sy'n cynrychioli eich teulu ac ychwanegwch nhw at gefndir pob rhan o arfbais eich teulu; un lliw am bob rhan.



← Tasg Ychwanegol!

Dyma arfbais Gilbert de Clare y dyn a adeiladodd Gastell Morlais ym Merthyr Tudful. Mae cefndir aur iddo a saethau coch. Allwch chi gyfieithu beth mae'r lliwiau'n eu cynrychioli am ei deulu?

1. _____

2. _____

Dyma'r rhestr o'r prif liwiau ddefnyddiwyd a beth oedd pob lliw yn ei gynrychioli.

Aur / Aelwyn

Haelioni a dealltwriaeth

Gwyn

Doethineb a diniweidrwydd

Coch

Rhyfelwr

Glas

Cryfder, gwirionedd a ffyddlondeb

Gwyrdd

Rhyddid

Porffor

Cyfiawnder

Dren

Uchelgais